



Ordinhad 17

Y Senedd: Ethol Cynrychiolwyr Adrannol

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 17

Y SENEDD: ETHOL CYNRYCHIOLWYR ADRANNOL

1. At ddibenion yr Ordinhad hwn, fe gytunodd y Senedd ar 10 Mehefin 2015 y dylid diffinio Staff Academaidd fel “yr aelodau staff hynny ar gontract academaidd, yn ôl diffiniad cofnodion perthnasol Swyddogaethau Academaidd HESA ar system gofnodion Adnoddau Dynol, a gyflogir yn y Brifysgol mewn swyddogaeth greiddiol academaidd”.
2. Aelodau ac Ail Ddewisiadau
 1. Bydd Staff Academaidd ym mhob Adran academaidd (fydd at ddibenion yr Ordinhad hwn hefyd yn golygu is-unedau academaidd gan gynnwys Ysgol/Athrofa) ar dir i ethol un aelod o'r Senedd ac ail ddewis, ac eithrio'r Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) fydd yn medru ethol dau aelod a dewis arall. Etholir yr holl aelodau a'r dewisiadau amgen am gyfnod o dair blynedd.
 2. Gall yr ail ddewisiadau fynychu'r Senedd pan fod yr aelodau wedi cyflwyno eu hymddiheuriadau i'r cyfarfod o dan sylw. Ar adegau o'r fath, bydd gan yr ail ddewisiadau yr hawl i pleidleisio llawn a gynigir i'r aelodau.
3. Cofrestr Etholiadol
 1. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol, ar ôl ymgynghori ag adran Adnoddau Dynol, yn paratoi cofrestr etholiadol o holl aelodau academaidd yr adran ar gyfer pob etholiad.
 2. Bydd unigolion nad yw eu henwau ar y gofrestr etholiadol, ond sydd yn credu y dylai fod ganddynt yr hawl i gymryd rhan yn yr etholiad, yn cael gwneud apêl i gael eu cynnwys i Ysgrifennydd y Brifysgol o fewn cyfnod rhesymol. Os ceir apeliadau o'r fath, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn gofyn am gyngor Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol cyn cyfeirio'r mater i gael ei bennu gan is-grŵp a fydd yn cynnwys tri aelod o leiaf o'r Senedd a enwebir gan yr Is-Ganghellor yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Senedd. Rhoddir gwybod am benderfyniad y grŵp hwnnw i'r apelydd gan Ysgrifennydd y Brifysgol ac wedi hynny rhoddir gwybod am y penderfyniad i gyfarfod nesaf y Senedd.
 3. Ar ôl cael eu hethol, caiff aelodau wneud cais ar unrhyw adeg i Ysgrifennydd y Brifysgol am gael rhestr o'r academyddion cyfredol yn eu Hadrannau y maent yn eu cynrychioli ar y Senedd.
4. Gweithdrefnau Ethol
 1. Bydd etholiadau i'r Senedd yn cael eu trefnu'n ganolog a gwneir penodiadau gan aelodau academaidd yr adrannau. Dosberthir hysbysiad etholiad i holl aelodau academaidd adran â swydd wag ynddi a gwahoddir enwebiadau ar gyfer cynrychiolydd/cynrychiolwyr o fewn cyfnod rhesymol wedi'r hysbysiad.
 2. Er mwyn iddo fod yn ddilys, bydd pob enwebiad yn cael ei gynnig a'i eilio gan aelodau academaidd yr adran dan sylw. Gall enwebai enwebu ei hun, neu gydsynio yn ysgrifenedig iddo / iddi gael ei (h)enwebu.
 3. Os mai un enwebiad yn unig a ddaw o bob adran (neu ddau unigolyn yn achos IBERS) ni fydd dewis arall. Os bydd nifer yr enwebiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael i adran cynhelir etholiad drwy bleidlais o holl aelodau academaidd yr Adran.

4. Bydd unrhyw bleidlais yn cael ei chynnal yn unol â'r dull Pleidlais Drosglwyddadwy Amgen (neu'r dull Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl yn achos IBERS). Yr ymgeisydd yn y safle cyntaf a etholir yn gynrychiolydd (neu'r ddau gyntaf yn achos IBERS) a'r unigolyn yn yr ail safle fydd yr ail ddewis.
5. Gellir cynnal pleidleisiau yn electronig neu gan ddefnyddio papurau copi caled, yn ôl disgrisiwn Ysgrifennydd y Nrifysgol.
6. Fel arfer, fe gynhelir etholiadau fel y gellir cyflwyno'r canlyniad i'w gadarnhau yng nghyfarfod olaf y Senedd yn ystod y flwyddyn academaidd.

5. Cyfnodau yn y Swydd

1. Bydd cyfnod pob aelod ac ail ddewis a etholir yn y swydd yn y modd uchod yn cychwyn ar y 1 Medi canlynol.
2. Bydd swydd wag dros-dro aelod yn cael ei llenwi am weddill cyfnod swydd yr aelod sy'n gadael, yn unol â'r gweithrefnau yn 4.1 i 4.4 uchod.
3. Ni fydd swyddi gweigion dros-dro ar gyfer aelodau amgen yn cael eu llenwi am weddill cyfnod y swydd.

6. Archwilwyr

Pan nad yw pleidleisiau'n cael eu cynnal yn electronig, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn gwahodd dau archwiliwr o blith aelodau *ex officio* y Senedd i oruchwylio cyfiri'r pleidleisiau ar gyfer yr etholiadau uchod.

7. Penderfynu lle codir amheuan

Ac eithrio'r hyn a ddarperir yn y paragraffau uchod, bydd unrhyw faterion sy'n ymwneud ag aelodaeth academaidd yr adrannau a chynnal etholiadau yn cael eu pennu yn ôl penderfyniad y Senedd.